**Kirsty Williams AC**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich Cyf/Your Ref:
Ein cyf/Our ref: MA-(P)KW/0768/19

Ann Evans
Cadeirydd Cymwysterau Cymru
Q2, Pencarn Lane,
Casnewydd
NP10 8UH

Mawrth 2019

Annwyl Ann,

**Llythyr Dyraniad Grantiau Cymwysterau Cymru ar gyfer 2019-2020**

Ysgrifennaf atoch i gadarnhau'r Dyraniad Grant i Gymwysterau Cymru ar gyfer 2019-2020. Rhoddir y grant er mwyn i Gymwysterau Cymru gyflawni ei swyddogaethau fel y nodir yn Neddf Cymwysterau Cymru 2015.

Mae Adran 3 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gymwysterau Cymru weithredu mewn ffordd y mae'n ystyried yn briodol at ddibenion cyflawni'r prif nodau o sicrhau bod cymwysterau, a system cymwysterau Cymru, yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru, a hybu hyder y cyhoedd yn y cymwysterau a'r system honno. O dan y Ddeddf hefyd, mae'n ofynnol i Gymwysterau Cymru roi sylw dyledus i'r materion a restrir yn adran 3(2) wrth ystyried beth sy'n briodol at ddibenion cyflawni'r prif nodau hynny.

Mae Adran 51 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gymwysterau Cymru ddarparu cyngor a gwybodaeth i Weinidogion Cymru am faterion yn ymwneud â chymwysterau a'r system cymwysterau yng Nghymru; credaf y bydd fy swyddogion yn ysgrifennu atoch yn ystod 2019-20 i ofyn am gyngor.

Gwerthfawrogaf yn fawr y cyfraniad y mae Cymwysterau Cymru wedi'i wneud hyd yn hyn ar y gwaith i ddatblygu cwricwlwm newydd i Gymru. Wrth i'r gwaith fynd rhagddo yn 2019-20, byddwn yn troi ein sylw at gymwysterau ar gyfer y cwricwlwm newydd ac rwy'n gwerthfawrogi y bydd Cymwysterau Cymru yn rhan sylweddol o'r broses hon. O gofio hyn, rwyf wedi rhoi cyfarwyddiadau i'm swyddogion adolygu'n rheolaidd y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn hon a'r blynyddoedd i ddod. Deallaf eu bod, gyda chithau, yn edrych ar bwysau posibl o oddeutu £480,000 ac rydych wedi nodi na fyddwch yn gallu cwrdd â'r gost hon o fewn eich dyraniad grant ar gyfer eleni. Byddaf yn ysgrifennu atoch eto ynghylch y mater hwn fis nesaf.

**Y Dyraniad Grant**

Rwy’n falch o gadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid grant i Cymwysterau Cymru fel y nodir yn y gyllideb, a rennir fel a ganlyn:

| | 2019-20<br>£000 |
|---|---:|
| Refeniw [1] | 8,067 |
| Arholiadau Cymraeg i Oedolion | 200 |
| Heb fod yn arian (e.e. Dibrisiant/Amhariad) | 215 |
| Cyfanswm yr Adnodd | 8,482 |
| Cyfalaf | - |
| **Cyfanswm y Gyllideb Adnoddau a Chyfalaf[2]** | **8,482** |
| *Addasiadau GIA:* | |
| Heb fod yn arian (e.e. Dibrisiant/Amhariad) | (215) |
| Dyledwyr/Credydwyr/Darpariaethau[3] | |
| Cronfa wrth gefn | |
| **Cyfanswm Cymorth Grant Dangosol [4]** | **8,267** |

1. Bydd cyllid ychwanegol o £0.225m ar gyfer pwysau costau pensiynau yn cael ei adlewyrchu yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2019-20.
2. Yn adlewyrchu sefyllfa Cymwysterau Cymru o ran adnoddau.
3. Bydd swm yr arian parod sy'n cael ei dynnu i lawr o'r grant cymorth yn dibynnu ar weth y dyledwyr a’r credydwyr ar ddiwedd y blynyddoedd ariannol presennol a blaenorol, a gwerth y darpariaethau i'w defnyddio yn ystod y flwyddyn.
4. Yn adlewyrchu'r grant arian parod dangosol i'w hawlio gan Cymwysterau Cymru, a fydd yn amrywio yn ôl lefel y dyledwyr/credydwyr a'r darpariaethau a ddefnyddir.

Mae taliad y grant yn amodol ar gydymffurfio â’r trefniadau ariannol y cytunwyd arnynt yn Nogfen Fframwaith Cymwysterau Cymru a ddiwygiwyd yn ddiweddar.

Mae'r dyraniad Cymorth Grant uchod yn cynnwys cyllid ychwanegol o £0.225 miliwn yn 2019-20, i gwrdd ag amcangyfrif a nodwyd gan Cymwysterau Cymru o bwysau'r costau sy'n deillio o benderfyniad Llywodraeth y DU i gynyddu cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwyr at Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Bydd y dyraniad yn cael ei adlewyrchu yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2019-20.

Er na addaswyd y gyllideb ar gyfer Grant Cymorth, argymhellir fod Cymwysterau Cymru yn parhau i ddefnyddio'r gronfa wrth gefn (Grant Cymorth nas gwariwyd), o tua £0.3 miliwn, i sicrhau bod balansau arian parod yn lleihau o fewn y ddwy flynedd nesaf i'r lefelau goddefiant a amlinellir yn y Ddogfen Fframwaith (sef 2% o'r dyraniad cyllideb neu oddeutu £165,000). Efallai y byddwch hefyd yn dymuno ystyried defnyddio rhywfaint o'r gronfa wrth gefn ar gyfer costau diwygio'r cwricwlwm.

Yn gywir

**Kirsty Williams AC**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education